
# Bwletin y Farchnad HCC
Gorffennaf 2020

**Mae Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) newydd ryddhau'r manylion am gofrestriadau lloi cig eidion a llaeth ar gyfer pum mis cyntaf eleni. Parhaodd nifer y lloi llaeth yn gymharol sefydlog, ond gwelwyd cynnydd sylweddol mewn cofrestriadau lloi cig eidion. Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych yn fanylach ar y canlyniadau hyn.**





Mae ffigurau a ryddhawyd gan BCMS yn dangos bod cyfanswm y cofrestriadau lloi rhwng mis Ionawr a mis Mai yng Nghymru yn 192,100 - sef 3.1% yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. O fewn y cyfanswm hwn, roedd y cofrestriadau lloi **llaeth** ond ychydig yn uwch na blwyddyn ynghynt; cofrestrwyd 56,900 o loi yn y cyfnod dan sylw (0.7% yn fwy na'r llynedd). O ran buchesi llaeth, ym misoedd Chwefror a Mawrth y cofrestrwyd y nifer uchaf o loi ac roedd hyn yn cyfrif am bron i 59% o gyfanswm y cofrestriadau yn ystod y cyfnod. Cynnydd yn niferoedd y lloi **cig eidion** a gofrestrwyd yng Nghymru oedd y prif reswm am y cynnydd cyffredinol a gafwyd, am fod nifer y lloi (sef 135,174) yn 4.2% yn uwch nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Dyma'r nifer uchaf o gofrestriadau lloi cig eidion yn ystod y cyfnod pum-mis hwn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rhywbeth yn debyg oedd niferoedd y lloi gwryw a benyw yn y fuches gig eidion - 49.4% o'r cofrestriadau ar gyfer lloi benyw, a 50.6% ar gyfer lloi gwryw.

Roedd cyfnod brig y cofrestriadau lloi cig eidion ym mis Ebrill, pan gofrestrwyd 41,530 o loi, sef cynnydd o 6.6% o'r naill flwyddyn i'r llall. Roedd y niferoedd ym mis Mai (37,500 o loi) hefyd yn gymharol uchel, ond yn sylweddol is nag yn y mis cyfatebol flwyddyn ynghynt (- 4.0%).

O ganlyniad, ym misoedd Ebrill a Mai, cofrestrwyd bron i 58% o'r holl loi cig eidion a gofrestrwyd hyd yma eleni. Mae hyn yn dangos fod y rhan fwyaf o gynhyrchwyr yng Nghymru sy'n lloia yn y gwanwyn yn anelu at loia cyn troi allan neu'n fuan wedyn. Ym mis Chwefror, cafwyd y newid mwyaf arwyddocaol o'r naill flwyddyn i'r llall o ran yr holl gofrestriadau lloi cig eidion, gyda'r niferoedd ar gyfer y mis yn 20.3% yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol.

**Rhifau Cofrestru Lloi Cig Eidion yng Nghymru, 2020**




Yn y tabl, fe welir manylion am y pum brid a gofrestrwyd fwyaf yn ystod y cyfnod o bum mis. Gwelwyd y cynnydd mwyaf o'r naill flwyddyn i'r llall (+ 11.7%) gyda lloi Aberdeen Angus. Hefyd, cofrestrwyd mwy o loi Limousin a Charolais (purlinach a chroesfrid) ac roeddynt yn cyfrif am 46% o'r holl gofrestriadau lloi cig eidion. Cofrestrwyd 1.5% yn fwy o loi Limousin nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd (cyfanswm o 40,800), a chofrestrwyd 4.3% yn fwy o loi Charolais.


***Mae'r cynnydd yng nghyfanswm y cofrestriadau lloi yng Nghymru yn adlewyrchu'r cynnydd o 1.2% yn y cofrestriadau ym Mhrydain gyfan yn ystod yr un cyfnod o bum mis.***


**Cyfran y cofrestriadau yn ôl brid, 2020**

| Brid | Cyfanswm (Ion - Mai 2020) | % Newid o'r naill flwyddyn i'r llall |
|---|---|---|
| Limousin | 40,831 | + 1.5% |
| Charolais | 21,643 | + 4.3% |
| Aberdeen Angus | 17,862 | + 11.7% |
| Glas Prydeinig | 16,385 | + 4.1% |
| Henfforddd | 16,002 | + 4.8% |
| Arall | 22,451 | + 3.1% |

*Noder: cafodd y bridiau pur a chroes eu cynnwys, ac mae'r newid canrannol ar gyfer y cyfnod cyfatebol yn 2019. Ffynhonnell: BCMS*

## Prisiau gwartheg dethol ym marchnadoedd da byw Cymru a Lloegr





**Cynnyrch Cig Eidion yn y DU**


### GWARTHEG

Mae pris y farchnad ar gyfer yr holl wartheg dethol yng Nghymru a Lloegr yn dal i fod yn uwch nag oedd flwyddyn yn ôl. Roedd y pris pwysau byw yn yr wythnos yn diweddu 18 Gorffennaf yn 197.4c/kg, sef 3.3c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol, a 21.7c yn uwch nag oedd yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn ôl. Mae'r pris ar hyn o bryd yn 11.4c yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2015-19:186.0c/kg). Yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 18 Gorffennaf, roedd y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych yn 354.6c/kg, sef 2.7c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol a 24.2c yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol. Roedd y pris pwysau marw am heffrod yn 355.0c/kg (1.2c yn fwy nag yn yr wythnos flaenorol). Y pris am deirw ifainc oedd 353.2c/kg (+ 6.8c), a'r pris am fuchod difa oedd 256.9c/kg (+3.2c).

Lladdwyd cyfanswm o 239,400 o wartheg yn lladd-dai'r DU ym mis Mehefin, sef 10.6% yn fwy nag ym mis Mehefin 2019. Mae hyn yn golygu y cafodd 0.6% yn llai o wartheg eu lladd yn ystod chwe mis cyntaf 2020 nag yn cyfnod cyfatebol 2019. Cafwyd cynnydd hefyd (10.6% i 175,500) yng nghyfanswm y gwartheg dethol a laddwyd yn ystod y mis. O fewn y cyfanswm hwn, gwelwyd y cynnydd mwyaf o'r naill flwyddyn i'r llall yn nifer yr heffrod (+14.7%). Lladdwyd 18.6% (9,400 o ran nifer) yn fwy o wartheg llawn-dwf nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Mae adroddiadau gan y diwydiant yn awgrymu y gallai'r prisiau uwch yn ystod mis Mehefin fod wedi peri i gynhyrchwyr werth eu gwartheg, a olygodd fod 11.5% yn fwy o gig eidion wedi ei gynhyrchu yn ystod mis Mehefin.

## Prisiau wyn dethol (SQQ) ym marchnadoedd da byw Cymru





**Cynnyrch Cig Defaid yn y DU**


### DEFAID

Roedd y Dyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ) pwysau byw am ŵyn dethol yn y marchnadoedd da byw yn dda am wythnos arall, er bod llawer o ŵyn tymor newydd wedi cael eu gwerthu yn ystod yr wythnosau diwethaf. Yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 18 Gorffennaf, cafwyd gostyngiad o 1.7c i 222.0c/kg yn y pris cyfartalog. Ond roedd yn dal i fod yn 43.5c yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol yn 2019, a 39.5c yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2015-19: 182.5c/kg). Mae prisiau mamogiaid difa mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru hefyd wedi bod yn dda yn ystod yr wythnosau diwethaf, gyda'r pris diweddaraf yn £61.30 y ddafad am yr wythnos yn diweddu 18 Gorffennaf - £1.50 yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol, ac £3.30 yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol yn 2019. Roedd y prisiau pwysau marw am ŵyn ym Mhrydain yn 468.6c/kg, sef 24.1c yn is nag yn yr wythnos flaenorol.

Cyfanswm yr holl ddefaid a laddwyd yn lladd-dai'r DU oedd 1.1miliwn, sef 7.8% yn fwy nag yn y mis cyfatebol y llynedd, a 28.9% yn fwy nag ym mis Mai. Y rheswm am y cynnydd hwn yn y cyfanswm o'r naill flwyddyn i'r llall oedd bod 8.9% yn fwy o ŵyn dethol na'r llynedd wedi eu lladd, er y lladdwyd 0.5% yn llai o ddefaid difa. Golygodd y cynnydd cyffredinol yng nghyfanswm y lladd yn ystod mis Mehefin fod 6.2% yn fwy o gig defaid wedi ei gynhyrchu yn ystod y mis. Fodd bynnag, nid oedd y cynnydd hwn yn ystod mis Mehefin yn ddigon i wneud iawn am y dirywiad a gafwyd yn y misoedd cynharach, ac mae cyfanswm y cig defaid a gynhyrchwyd yn ystod chwe mis cyntaf eleni yn 10.3% yn is nag oedd flwyddyn ynghynt.

## Pris cyfartalog moch (Manyleb yr UE) ym Mhrydain




**Cynnyrch Porc yn y DU**

### MOCH

Roedd Prisiau'r Holl Foch (APP) Manyleb-UE ym Mhrydain yn 168.7c/kg yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 11 Gorffennaf, sef rhywbeth yn debyg (+ 0.6c) i'r hyn ydoedd yn yr wythnos flaenorol, a 13.8c yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol yn 2019. Roedd y pris cyfartalog am berchyll 30kg ym Mhrydain yn yr wythnos yn diweddu 11 Gorffennaf yn £60.84 (£1.48 yn uwch na'r wythnos flaenorol), ac roedd y pris cyfartalog am berchyll 7kg yn £42.72 - sef 42c yn is na'r wythnos flaenorol.

Cyfanswm yr holl foch a laddwyd yn lladd-dai'r DU ym mis Mehefin oedd 852,900, sef 3.1% (25,400 o foch) yn fwy nag yn y mis cyfatebol y llynedd. Daeth y cynnydd yn sgil cynnydd o 3.0% yn nifer y moch heb fagu a laddwyd yn ystod y mis. Yn ystod chwe mis cyntaf eleni, lladdwyd cyfanswm o 5.43 miliwn o foch, sef 1.1% yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Roedd pwysau cyfartalog carcasau'r moch heb fagu yn ystod y mis, sef 85.6kg, ychydig yn drymach (+ 1.5kg) nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Roedd y cyfuniad o garcasau trymach a mwy o foch yn cael eu lladd yn gyfrifol a, gynnydd o 4.8% yn y porc a gafodd ei gynhyrchu ym mis Mehefin (cyfanswm o 74,100 tunnell).